# Asesiad Strwythuredig 2023 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 40820A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Cyd-destun y cefndir 5

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Tryloywder ac effeithiolrwydd y Bwrdd 11

Systemau sicrwydd corfforaethol 16

Dull cynllunio corfforaethol 21

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 23

Atodiadau

Atodiad 1—Dulliau archwilio 29

Atodiad 2—Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol 32

Atodiad 3—Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 41

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Bu pwyslais allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar yr hyn a ganlyn:

- Tryloywder ac effeithiolrwydd y Bwrdd;
- Systemau sicrwydd corfforaethol;
- Dull cynllunio corfforaethol, a
- Dull corfforaethol o reoli ariannol.

Disgrifir ein hadolygiad ar wahân o effeithiolrwydd y bwrdd yn yr adran Cyd-destun Cefndir canlynol, ac nid yw ein gwaith asesu strwythuredig wedi adolygu trefniadau cyflawni gweithredol y Bwrdd Iechyd.

4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros sawl blwyddyn. Mae hefyd wedi ei lywio gan:

- Orchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2024. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**. Rydym hefyd yn darparu

diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Cyd-destun y cefndir

5 Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad er budd y cyhoedd ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Disgrifia'r adroddiad lefel bryderus o gamweithredu yn y Bwrdd ac uwch-arweinyddiaeth ehangach y sefydliad. Daw i'r casgliad bod y pryderon a nodwyd yn peryglu'n sylfaenol allu'r Bwrdd i weithio'n effeithiol. Wythnos ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig[1], ac ymddiswyddodd holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd.

6 Ers mis Chwefror 2023, bu cyfnod o gynnwrf a newid yn y Bwrdd a welodd benodiad Cadeirydd interim a thri Aelod Annibynnol cyfnod penodol i ddechrau, yna cafodd Aelodau Annibynnol parhaol eu recriwtio, gan gynnwys Is-gadeirydd wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Cyhoeddwyd penodiad parhaol y Cadeirydd ym mis Ionawr 2024. Hefyd, bu newidiadau yng ngwneuthuriad y Tîm Gweithredol ers mis Chwefror 2023, yn fwyaf nodedig y cyhoeddiad bod Prif Weithredwr parhaol wedi ei benodi ym mis Tachwedd 2023.

7 Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein gwaith dilynol ar Effeithiolrwydd y Bwrdd. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad, ar ôl cyfnod o aflonyddwch sylweddol yn ystod 2023, fod y bwrdd mewn sefyllfa mwy sefydlog a bod perthnasau gwaith ymhlith uwch-arweinwyr yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol. Fodd bynnag, noda'r adroddiad fod heriau sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd, gan gynnwys datblygu tîm gweithredol sy'n cyflawni'n dda, recriwtio ar gyfer y swyddi parhaol sy'n weddill ar y bwrdd, a sicrhau bod y bwrdd newydd yn dangos yr arweinyddiaeth unedig ac effeithiol sydd ei hangen i ymdrin â'r heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

8 Mae angen ystyried canfyddiadau yr asesiad strwythuredig a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun ein hadroddiad Dilynol ar wahân ar Effeithiolrwydd Bwrdd, ac ochr yn ochr ag ef.

[1] Mesurau Arbennig yw'r lefel uwchgyfeirio uchaf ar fframwaith uwchgyfeirio GIG Cymru (Saesneg yn unig).

# Canfyddiadau allweddol

9 Canfuom, **yn dilyn heriau sylweddol yn 2023, fod y Bwrdd Iechyd yn fwy sefydlog ac yn y broses o gryfhau trefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol, ond bod angen strategaeth glir arno i'w alluogi i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd da i fodloni'r galw am ofal iechyd cyfredol ac yn y dyfodol**. **Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr hefyd fod digon o sicrwydd ar effaith y camau a gymerir i gyflawni ei gynlluniau, i liniaru risg, i wella perfformiad gwasanaethau ac i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.**

## Tryloywder ac effeithiolrwydd y Bwrdd

10 **Yn dilyn cyfnod o darfu yn 2023 a ddisgrifir yn ein hadolygiad ar wahân o effeithiolrwydd y bwrdd, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi ailsefydlu strwythur pwyllgor llawn sy'n gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella hygyrchedd y cyhoedd i gyfarfodydd a phapurau pwyllgor ac i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o bolisïau y mae'n angenrheidiol eu hadolygu.**

11 Mae cyfarfodydd y bwrdd yn hygyrch i'r cyhoedd ar ffurf rithwir ac yn y cnawd, fodd bynnag, ni all y cyhoedd arsylwi ar y mwyafrif o'r cyfarfodydd pwyllgor ar hyn o bryd. Mae dryswch ynghylch y dyddiad cau ar gyfer sicrhau bod papurau bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd o flaen cyfarfodydd. Nid yw'r holl gofnodion pwyllgor sydd wedi eu cadarnhau na'r rhai nad ydynt wedi eu cadarnhau yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd fel mater o drefn. Fodd bynnag, cedwir sesiynau Bwrdd a phwyllgorau preifat yn briodol ar gyfer y materion mwyaf sensitif a chrynhoir trafodaethau preifat mewn cyfarfodydd cyhoeddus dilynol.

12 Er bod gan y Bwrdd Iechyd reolau sefydlog ffurfiol a chyfredol a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog i gefnogi ei fusnes Bwrdd a phwyllgorau, mae ôl-groniad o bolisïau sy'n hwyr y mae angen eu hadolygu.

13 Golyga tarfu yn 2023 fod rhai pwyllgorau wedi rhoi'r gorau i weithredu oherwydd y gostyngiad dros dro yn niferoedd yr aelodau annibynnol. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2024, ar ôl recriwtio aelodau annibynnol yn llwyddiannus ac yn barhaus, ailgyflwynodd y Bwrdd Iechyd strwythur pwyllgor llawn. Cefnogir pob pwyllgor â chylch gorchwyl a chylch busnes diwygiedig. Disgwylir i hunanasesiadau blynyddol y pwyllgorau ddechrau yn gynnar yn 2024 ac mae aelodau y bwrdd a'r pwyllgorau yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cyfarfodydd.

14 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn parhau i wrando ar gleifion yn rheolaidd ac mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd ymrwymo i dderbyn straeon rheolaidd oddi wrth y staff wrth symud ymlaen.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

15 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei fframweithiau risg a pherfformiad a'i fod yn datblygu system rheoli ansawdd newydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wreiddio'r trefniadau newydd hyn yn iawn, er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach, cryfhau'r broses o reoli cwynion a digwyddiadau a chryfhau'r prosesau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio.

16 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig. Fodd bynnag, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dal yn ei gamau cynnar ac mae angen ei gryfhau ymhellach a'i gysylltu ag amcanion strategol newydd, ar ôl iddynt gael eu datblygu. Mae gweithrediad Fframwaith Rheoli Risgiau y Bwrdd Iechyd a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn mynd rhagddo, gan ganolbwyntio ar lai o risgiau blaenoriaeth uwch sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2023–24 a'r fframwaith mesurau arbennig.

17 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Perfformiad Integredig newydd ac Adroddiad Perfformiad Integredig yn ddiweddar. Er bod y naratif a nodir mewn adroddiadau perfformiad yn gwella, mae angen canolbwyntio'n gliriach ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i wella perfformiad ac a yw'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu System Rheoli Ansawdd newydd yn rhan o'i ofyniad i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ei fod wedi adolygu'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gofynion newydd a nodir yn y Ddeddf. Mae adroddiadau diogelwch cleifion diweddar wedi dangos perfformiad gwael wrth ymateb i gwynion ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau ac mae llawer o ymchwiliadau yn hwyr. Rydym hefyd wedi nodi gostyngiad sydyn ac anesboniadwy mewn cwynion yn 2023–24, ac nid yw'r rhesymau dros hyn yn hysbys ar hyn o bryd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i'r mater.

19 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i dderbyn adroddiad olrhain archwilio yn rheolaidd, ond mae lle i roi eglurder pellach a chanolbwyntio ar a yw'r camau a gymerir yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu'r graddau y mae'r gweithredwyr yn derbyn cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ddiweddaraf i'r olrheiniwr, a ddylai leihau'r amser y mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei dreulio ar sicrhau ansawdd yr wybodaeth sydd ar yr olrheiniwr.

## Dull cynllunio corfforaethol

20 Canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i risgiau a'i heriau strategol sylweddol, ond mae'n ei chael hi'n anodd bodloni'r galw am wasanaethau ac nid yw ei wasanaethau'n gynaliadwy yn ariannol ar hyn o bryd. Mae angen dull cynllunio cliriach a thymor hwy ar y Bwrdd Iechyd sy'n ystyried ad-drefnu gwasanaethau yn briodol, er mwyn bodloni'r galw am ofal iechyd cyfredol ac yn y dyfodol. Mae angen canolbwyntio hefyd ar adrodd, monitro a sicrwydd o ran cyflawni'r cynllun ar lwyddiant cyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau a fwriedir.

21 Mae dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn dangos dealltwriaeth dda o'i risgiau a'i heriau strategol allweddol. Mae pum mlynedd i mewn i'w Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach 2018–28 erbyn hyn. Gan gydnabod canlyniadau tymor hwy y pandemig, mae llawer o wasanaethau y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd bodloni'r galw ac nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy yn ariannol ar hyn o bryd.

22 Rydym wedi argymell yn flaenorol fod angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynlluniau i gefnogi'r broses o weithredu ei strategaeth glinigol, ac mae hynny'n parhau i fod yn wir. Er bod rhai enghreifftiau cyfyngedig o ddatblygiadau a newid i wasanaethau, nid yw dull byrdymor y Bwrdd Iechyd o gynllunio a darparu rhaglenni wedi creu amgylchedd cefnogol ar gyfer lefel y trawsnewid sydd ei hangen. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd greu cynllun ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ei ddatblygu.

23 Yng Nghynllun Blynyddol 2023–24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar fentrau gwella, gan eu cysoni nhw, ond mae'r adroddiadau ar gynnydd yn canolbwyntio yn aml ar dasgau yn hytrach nag effeithiau neu ganlyniadau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld pa wahaniaeth y maent yn ei wneud. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd feddwl am gyfluniad cynaliadwy ei wasanaethau ac ymgysylltu â'i randdeiliaid allweddol yn rhan o'r broses, gan sicrhau trafodaeth onest ar yr heriau sydd o'i flaen.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

24 Canfuom, er ei fod wedi bodloni'r ddyletswydd statudol i wario o fewn ei ddyraniad ar gyfer cyfnod 2020–23, fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu diffyg ariannol sylfaenol sylweddol. Mae angen clir am strategaeth ariannol cadarn sy'n gysylltiedig â modelau gwasanaeth clinigol cynaliadwy sydd o ansawdd da.

25 Bodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd i wario o fewn ei ddyraniad ariannol yn ystod cyfnod treigl tair blynedd 2020–23 â chymorth ariannol strategol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg sylfaenol, mae'r sefyllfa ariannol cyffredinol yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Yn y flwyddyn ariannol presennol, mae wedi derbyn £82 miliwn yn rhan o ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi ymyrraeth wedi ei thargedu yn rhan o becyn ariannol 3½ blynedd. Derbyniodd £34 miliwn arall i gefnogi gwelliannau perfformiad, ac ym mis Hydref, dyrannodd Llywodraeth Cymru £101.5 miliwn ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd i'w helpu i ymateb i heriau ariannol cynyddol ledled GIG Cymru. Ar y cyfan, ym mis Rhagfyr 2023, roedd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn dyraniad ariannol anghylchol ychwanegol o £217.5 miliwn yn 2023–24. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau i ragweld diffyg o £33 miliwn. Mae'r dull tymor byr hanesyddol o gynllunio ariannol yn sbarduno dull trafodaethol o reoli ariannol. Er bod angen amlwg am reolaeth ariannol trafodaethol, mae angen strategaeth ariannol hefyd i wella'r sefyllfa ar y diffyg sylfaenol sy'n gysylltiedig â modelau clinigol sy'n hyfyw yn ariannol ac yn gynaliadwy.

26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos dulliau rhesymol o graffu ar drefniadau a materion rheoli ariannol arferol. Fodd bynnag, o ystyried y materion ariannol a nodwyd yn

archwiliad cyfrifon 2021–22 a 2022–23, mae angen rhoi sicrwydd llawn i'r Bwrdd, drwy ei bwyllgorau, fod y materion a nodwyd gan Archwilio Cymru, a'r argymhellion a wnaed yn adroddiad dilynol yr ymchwiliad EY yn cael sylw llawn.

# Argymhellion

27 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni a'n hasesiad blaenoriaeth. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**. Mae **Atodiad 2** yn rhoi trosolwg o'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion y llynedd.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2023**

| Argymhellion |
| --- |
| **Tryloywder busnes bwrdd a phwyllgorau**<br>A1 Ar hyn o bryd, mae dryswch ynghylch sawl diwrnod cyn y cyfarfodydd y dylai papurau y Bwrdd a phapurau pwyllgorau fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd gytuno ar ddyddiad targed cyson ar gyfer cyhoeddi agendâu o flaen cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, a mynegi hyn. **Paragraff 34**<br>A2 Mae'r cofnodion ar gyfer rhai cyfarfodydd pwyllgor ar goll o'r wefan fisoedd lawer ar ôl dyddiad y cyfarfod. Mae hyn yn effeithio ar allu'r cyhoedd i gael gafael ar drafodaethau y pwyllgor yn amserol. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgor mewn modd mwy amserol yn rhan o'i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd. **Paragraff 35** |
| **Tueddiadau sy'n newid o ran nifer y cwynion yn 2023–24**<br>A3 Bu gostyngiad anesboniadwy sylweddol hefyd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod chwe mis cyntaf 2023–24 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio ar frys i ddarganfod y rheswm er mwyn sicrhau nad yw cwynion yn cael eu colli na'u hadrodd yn anghywir. **Paragraff 67** |
| **Olrhain argymhellion**<br>A4 Nododd ein gwaith nad ychwanegwyd holl argymhellion Archwilio Cymru a wnaed yn 2023 at yr olrheiniwr archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod proses ar gyfer ychwanegu'r holl argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru at yr olrheiniwr archwilio mewn modd amserol. **Paragraff 71** |

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A5 | Ar hyn o bryd, nid oes digon o oruchwyliaeth pwyllgor i fonitro'r cynnydd a wneir o'i gymharu ag argymhellion cyrff nad ydynt yn rhai archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno goruchwyliaeth pwyllgor effeithiol ar gyfer monitro'r cynnydd a wneir o'i gymharu ag argymhellion rheoleiddwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Crwner, Comisiynydd y Gymraeg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. **Paragraff 73** |
| **Cynllun ymgysylltu clinigol** | |
| A6 | Mae angen gwneud mwy i ad-drefnu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion gofal iechyd y boblogaeth gyfredol ac yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy. Er mwyn cyd-fynd â'i strategaeth glinigol, dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â chynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i'w helpu i lunio modelau gwasanaeth cynaliadwy sydd wedi eu cynllunio i fodloni'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol. **Paragraff 79** |
| **Strategaeth ariannol** | |
| A7 | Mae'n anodd gweld i ba raddau yr oedd mentrau ac amcanion gwella y Bwrdd Iechyd a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2023–24 yn fforddiadwy yn ariannol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ariannol, a chefnogir gan gynllun ariannol tymor canolig gyda'r nod o gefnogi modelau gwasanaeth cynaliadwy o ansawdd da, ac o leihau diffyg a diffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd. **Paragraff 95** |
| **Monitro'r cynnydd o'i gymharu â materion cyfrifyddu** | |
| A8 | Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn cael sicrwydd ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth gyflawn o faterion a nodir yn archwiliad cyfrifon Archwilio Cymru 2021–22 a 2022–23, a bu'r adolygiad EY dilynol yn arafach na'r bwriad. **Paragraff 101** |

# Adroddiad manwl

## Tryloywder ac effeithiolrwydd y Bwrdd

28 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

29 Yn dilyn cyfnod o darfu yn 2023 a ddisgrifir yn ein hadolygiad ar wahân o effeithiolrwydd y bwrdd, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi ailsefydlu strwythur pwyllgor llawn sy'n gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella hygyrchedd y cyhoedd i gyfarfodydd a phapurau pwyllgor ac i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o bolisïau y mae'n angenrheidiol eu hadolygu.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

30 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn yn y Bwrdd a'r pwyllgor:

- cyfarfodydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd;
- busnes a phenderfyniadau a wneir yn dryloyw;
- cofnodion cyfarfodydd sydd ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

31 **Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn dangos mwy a mwy o dryloywder cyhoeddus ym musnes y bwrdd, fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella a safoni'r trefniadau hyn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau bwrdd**.

32 Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yn y cnawd mewn lleoliadau ledled gogledd Cymru yn gylchdroadol, ac maent yn agored i'r cyhoedd eu harsylwi. Darlledir y cyfarfodydd yn fyw ar YouTube ac mae recordiadau ar gael i'r cyhoedd yn fuan wedyn. Nid yw'r Bwrdd yn mynd i'r afael â chwestiynau a godir gan y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd mwyach, ar ôl adlewyrchu bod cwestiynau a gyflwynwyd yn seiliedig ar safbwynt cul o brofiadau cleifion, ac yn sgil hynny dechreuodd waith ehangach ar ymgysylltu â dinasyddion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn parhau i ymateb i ymholiadau a godir gan y cyhoedd y tu allan i gyfarfodydd.

33 Nid yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio fel y gall y cyhoedd eu gweld, ac mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn dynodi mai dim ond dau o'r wyth pwyllgor sy'n caniatáu i'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd ar gais ar hyn o bryd. Gellir cyflwyno cwestiynau gan y cyhoedd i'r holl bwyllgorau cyn y cyfarfodydd.

34 Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bapurau Bwrdd a phwyllgorau gael eu dosbarthu i'r aelodau a'u lanlwytho ar y wefan ddeg niwrnod cyn y cyfarfodydd. Fodd bynnag, yn fewnol, adroddir o gymharu â safon o saith niwrnod, ac mae'r wefan gyhoeddus yn dyfynnu bod papurau yn cael eu dosbarthu bum niwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a saith niwrnod cyn cyfarfodydd pwyllgor **(Argymhelliad 1)**. Adroddir toriadau i'r Pwyllgor Archwilio fel mater o drefn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud ei flaen-galendr cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn

gliriach, sydd hefyd yn rhoi cyfle i ddarparu dyddiadau dosbarthu papurau clir, a ddylai helpu i sicrhau bod papurau'n cael eu cyflwyno yn amserol.

35 Rydym hefyd wedi nodi anghysondebau o ran amseroldeb y broses o lanlwytho cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau a chofnodion sydd wedi eu cadarnhau ar ôl cyfarfodydd. Pan wnaethom adolygu'r wefan ym mis Ionawr 2024, canfuom fod y cofnodion ar gyfer rhai cyfarfodydd pwyllgor ar goll fisoedd ar ôl dyddiad y cyfarfod[2]. O gofio nad yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu ffrydio'n fyw, ac nad yw recordiadau ar gael i'r cyhoedd, mae'n bwysig bod cofnodion yn cael eu hychwanegu at y wefan yn fuan ar ôl y cofnodion er mwyn galluogi'r cyhoedd i weld yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfodydd. Er mwyn cynyddu tryloywder ymhellach a sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael amserol ar fusnes pwyllgorau, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgor mewn modd mwy amserol yn rhan o'i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd **(Argymhelliad 2)**.

36 Yn briodol, mae'r Bwrdd yn parhau i gadw sesiynau Bwrdd a phwyllgorau preifat ar gyfer materion sensitif a masnachol yn unig. Fodd bynnag, mae lle i egluro'r rhesymeg ar daflenni clawr adroddiadau er mwyn esbonio pam yr ystyrir eitemau yn breifat. Yn briodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd crynodeb o'r materion a drafodwyd yn breifat yn y cyfarfod cyhoeddus dilynol.

37 Fel y trafodir yn fanylach yn ein hadroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd Bwrdd 2024, rydym wedi arsylwi trafodaethau mwy agored a gonest yn y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau cyhoeddus diweddar.

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

38 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith er mwyn hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

39 **Er bod gan y Bwrdd Iechyd reolau sefydlog ffurfiol a chyfredol a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog i gefnogi ei fusnes Bwrdd a phwyllgorau, canfuom fod ôl-groniad o bolisïau sy'n hwyr y mae angen eu hadolygu.**

[2] Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd cofnodion a gadarnhawyd ar gyfer y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol wedi eu lanlwytho ers mis Gorffennaf 2023 ac nid oedd cofnodion a gadarnhawyd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ers mis Awst 2023.

40 Mae'r Bwrdd, a gefnogir gan y Pwyllgor Archwilio yn adolygu yn rheolaidd ac yn briodol ei Reolau Sefydlog, ei Gynllun Cadw a Dirprwyo, a'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Fe'u diweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2023, ond nid yw'r fersiynau diweddaraf ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd eto.

41 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn mabwysiadu gweithdrefnau llywodraethu da ar ddechrau cyfarfodydd, gan gynnwys gofyn am ddatganiadau o fuddiant. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'n flynyddol y gweithdrefnau ar gyfer datgan, cofrestru a rheoli buddiannau, rhoddion a lletygarwch. Mae cofrestrau cyfredol ar gyfer aelodau y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, ond nid yw'n rhwydd cael gafael arnynt. Lansiodd y Bwrdd Iechyd system newydd ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiannau, rhoddion a lletygarwch ym mis Awst 2023. Yn gadarnhaol, ochr yn ochr â chyfathrebu â phwyslais, mae'r system newydd yn arwain at gynnydd mewn datganiadau ar draws y sefydliad ehangach.

42 Mae'r sefyllfa sy'n ymwneud â pholisïau y Bwrdd Iechyd yn fwy pryderus; mae 84 (59%) o'r 143 o bolisïau y Bwrdd Iechyd yn hwyr yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae polisi y Bwrdd Iechyd ar gyfer adolygu a diweddaru polisïau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn nodi proses newydd o sicrhau bod dogfennau rheoli ysgrifenedig yn cael eu diweddaru â deddfwriaeth gyfredol a gofynion eraill. Mae grwpiau gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y polisi diwygiedig ar gyfer adolygu a diweddaru polisïau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn disgwyl cael fersiwn derfynol y polisi ochr yn ochr â chynllun i flaenoriaethu'r ôl-groniad o bolisïau y maent yn hwyr yn cael eu hadolygu ym mis Mawrth 2024 **(Atodiad 2, A4 2022)**.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

43 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus.

44 Canfuom fod **strwythur pwyllgorau Bwrdd llawn ar waith erbyn hyn, a bod pob pwyllgor yn cael ei gefnogi gan gylch gorchwyl, cylch busnes ac ymrwymiad i adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor yn rheolaidd.**

45 Fel y trafodir yn fanylach yn ein hadroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd Bwrdd 2024, amharodd yr hyn a ddigwyddodd yn gynnar yn 2023 yn sylweddol ar fusnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Rhoddwyd y Bwrdd Iechyd mewn mesurau arbennig ac

ymddiswyddodd pob un o aelodau annibynnol y Bwrdd ar y pryd. Yn ystod yr wythnosau a'r misoedd dilynol, penododd Llywodraeth Cymru Gadeirydd Interim a nifer bach o aelodau annibynnol interim yn uniongyrchol. Roedd y capasiti llai o aelodau annibynnol yn golygu gostyngiad dros dro yn nifer y pwyllgorau rhwng mis Mawrth 2023 a mis Ionawr 2024, fel y disgrifir yn **Arddangosiad 2**. Parhaodd y Bwrdd i gyflawni dyletswyddau craidd yn foddhaol yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys sicrhau ei fod yn cwmpasu dyletswyddau allweddol pwyllgorau a oedd wedi rhoi'r gorau i weithredu. Fodd bynnag, roedd effaith anochel ar yr amser a oedd ar gael ar gyfer trafodaethau mewn cyfarfodydd, gan gynnwys trafod gwaith cynllunio strategol yn ogystal â chyfleoedd mwy penodol i wrando ar straeon staff.

46 Ers hynny, bu sawl aelod annibynnol a benodwyd yn barhaol, sydd bellach wedi galluogi pwyllgorau y Bwrdd i gael eu hadfer yn llawn. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl a chylch busnes[3] cyfoes sy'n gyson â blaenoriaethau strategol a risgiau allweddol y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 2: newidiadau i strwythurau a chyfarfodydd pwyllgor yn ystod 2023**

| Pwyllgorau a roddodd y gorau i weithredu ym mis Chwefror 2023 | Pwyllgorau a barhaodd i gwrdd yn ystod 2023 | Pwyllgorau newydd/addasedig a sefydlwyd ym mis Ionawr 2024 |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth | Y Pwyllgor Archwilio, | Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau; |
| Y Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Chapasiti | Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth | Y Pwyllgor Capasiti a Chydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Iechyd Meddwl |
| | Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, | Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant |
| | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol | |

[3] Calendr blynyddol o eitemau agenda craidd ar gyfer pwyllgor yw'r cylch busnes.

| Pwyllgorau a roddodd y gorau i weithredu ym mis Chwefror 2023 | Pwyllgorau a barhaodd i gwrdd yn ystod 2023 | Pwyllgorau newydd/addasedig a sefydlwyd ym mis Ionawr 2024 |
|---|---|---|
| | Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol[4] | |

47 Mae pob cadeirydd pwyllgor yn darparu crynodeb lefel uchel o benderfyniadau a materion allweddol a ystyrir yn ystod cyfarfodydd ar gyfer y Bwrdd. Rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu sefydlu grŵp cadeiryddion pwyllgorau er mwyn galluogi materion i gael eu croesgyfeirio ac er mwyn llywio'r broses o bennu agendâu y cyfarfodydd.

48 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cyfarfodydd ac maent yn bwriadu dechrau adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd y pwyllgorau yn gynnar yn 2024. Yn dilyn heriau ac ail-lunio'r Bwrdd yn 2023, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu rhaglen ffurfiol i ddatblygu'r bwrdd yn gynnar yn 2024.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

49 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff.

50 Canfuom fod **trefniadau y Bwrdd ar gyfer gwrando yn uniongyrchol ar gleifion yn gwella, a'i fod yn bwriadu cynyddu cyfleoedd i wrando'n uniongyrchol ar y staff drwy ymweliadau gwasanaeth a thrwy wrando ar straeon staff yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant**.

51 Mae'r Bwrdd yn parhau i gael straeon cleifion ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2023, roedd y straeon cleifion yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau ac yn cynnwys recordiadau o gleifion yn siarad am eu profiadau. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei adroddiad profiad dinasyddion, a gynhyrchodd drafodaeth da ac agored yng nghyfarfod Bwrdd Ionawr 2024 ar ansawdd gwasanaethau o safbwynt

[4] Rhoddodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol y gorau i weithredu dros dro rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2023

claf ac a gafodd ei wella'n ddefnyddiol â sylwadau gan Llais[5]. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn parhau i dderbyn straeon cleifion, a grynhoir hefyd yn ei adroddiad blynyddol ac sy'n helpu i osod naws ei gyfarfodydd. Fodd bynnag, ni fu straeon staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd na'r pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn deall y bydd profiadau staff yn nodwedd reolaidd o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar ôl iddo gael ei sefydlu ym mis Ionawr 2024.

52 Cynhaliodd aelodau y Bwrdd ymweliadau anffurfiol ag amrywiaeth o feysydd gwasanaeth yn ystod llawer o 2023 er mwyn eu galluogi i wrando yn uniongyrchol ar gleifion a'r staff. Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau mewn daearyddiaeth a chapasiti, roedd nifer yr ymweliadau a wnaed gan bob aelod o'r Bwrdd yn amrywio. Fodd bynnag, erbyn mis Hydref 2023, roedd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau trefnu ymweliadau gwasanaeth mwy ffurfiol yn rhan o raglen ddatblygu y Bwrdd. Mae'n mabwysiadu dull wedi ei dargedu drwy gysylltu math a lleoliad ymweliadau â risgiau a blaenoriaethau strategol cyfredol. Er enghraifft, cyn i'r Bwrdd ystyried cynllun gaeaf 2023–24 y Bwrdd Iechyd, ymwelodd y Bwrdd ag Adran Achosion Brys a chyfleuster Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Ysbyty Gwynedd er mwyn llywio ei ddealltwriaeth o rwystrau a materion allweddol.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

53 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

54 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei fframweithiau risg a pherfformiad a'i fod yn datblygu system rheoli ansawdd newydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wreiddio'r trefniadau newydd hyn yn iawn, er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach, cryfhau'r broses o reoli cwynion a digwyddiadau a chryfhau'r prosesau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

55 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;

[5] Corff cenedlaethol ac annibynnol i roi llais cryfach i bobl Cymru mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw Llais.

- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw;
- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar risgiau corfforaethol.

56 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd gan adolygu ei drefniadau Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a rheoli risg, ond bod angen amcanion strategol clir arno i gysoni risgiau strategol ag effaith y camau y mae'n eu cymryd i liniaru risgiau, a rhoi pwyslais cryfach arnynt.**

57 Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd ym mis Tachwedd 2023. O ystyried na phennodd y Bwrdd Iechyd amcanion strategol yn 2023–24, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei gysoni â'r 19 blaenoriaeth a nodir yn ei Gynllun Blynyddol 2023–24. Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen clir i bennu amcanion strategol tymor hwy ac mae'n bwriadu gwneud hynny yn ystod 2024–25. Wrth ddyfeisio ei amcanion strategol newydd, dylai'r Bwrdd adolygu ei amcanion llesiant hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[6], gan nodi nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei amcanion llesiant ers 2018. Canfu ein gwaith le i gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd er mwyn mynegi rhai risgiau strategol yn well drwy sicrhau bod rheolaethau a llinellau sicrwydd yn gadarn a bod camau lliniaru wedi eu cynllunio i gael effaith. Dylai'r Bwrdd sicrhau hefyd fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dod yn ddull byw sydd wedi ei wreiddio ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac yn offeryn ar gyfer llunio a llywio agendâu cyfarfodydd.

58 Cymeradwyodd y Bwrdd ei Fframwaith Rheoli Risgiau diweddaredig ym mis Medi 2023. Mae polisïau allweddol a phrosesau clir sy'n cefnogi'r fframwaith. Fodd bynnag, nodwn fod trefniadau creiddiol gan gynnwys hyfforddiant rheoli risgiau sy'n dal i gael eu datblygu. Yn ystod 2023, gwnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu a rhesymoli ei gofrestr risgiau corfforaethol gan ganolbwyntio ar y risgiau corfforaethol allweddol sy'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau y Bwrdd a chyfeirnodi'r gwaith Mesurau Arbennig pan fo hynny'n berthnasol. Yn ddefnyddiol, dylai'r gwaith rhesymoli hwn ddarparu mwy o amser i bwyllgorau ganolbwyntio ar y risgiau sgorio uchaf. Mae'r dull hefyd yn ymgorffori parodrwydd y Bwrdd i dderbyn

[6] Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 adolygu eu hamcanion llesiant yn flynyddol yn rhan o ddyletswyddau adrodd blynyddol. Hefyd, ym mis Gorffennaf 2023, nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y gofyniad i sefydliadau adolygu eu hamcanion llesiant cyn gynted â phosibl ar ôl mis Ebrill 2024, yn dilyn cyflwyniad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a'r newid a wnaed i amcan llesiant cenedlaethol.

risg y cytunwyd arno yn ddiweddar, sef pwyslais sesiwn datblygu bwrdd yn ystod haf 2023.

59 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a fframwaith rheoli risgiau y Bwrdd Iechyd yn briodol. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn trafod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r cofrestrau risgiau yn ei gyfarfodydd yn rheolaidd, ond mae angen rhagor o bwyslais ar yr effaith y mae camau gweithredu yn ei chael ar y gwaith o fynd i'r afael â risgiau. Os nad yw camau lliniaru yn cael yr effaith a ddymunir, bydd angen newid dull y Bwrdd Iechyd o reoli'r risg **(Atodiad 2, A1 2022).**

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

60 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

61 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwelliannau i'w fframwaith rheoli perfformiad a'i waith adrodd perfformiad, ond bod angen rhagor o bwyslais ar adrodd effaith y camau y mae'r bwrdd iechyd yn eu cymryd i wella perfformiad**.

62 Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Perfformiad Integredig newydd 2023–24 ym mis Medi 2023. Mae'r fframwaith yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau ar draws y sefydliad a threfniadau uwchgyfeirio mewnol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gellid cryfhau'r fframwaith mewn rhai meysydd, gan gynnwys sicrhau cysondeb gwell â'r fframwaith Mesurau Arbennig.

63 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei Adroddiad Perfformiad Integredig hefyd, a llywiwyd ei ddatblygiad drwy ymgysylltu â grwpiau gweithredol a phwyllgorau. Mae Adroddiad Perfformiad Integredig mis Ionawr 2024 yn amlygu sawl tueddiad perfformiad pryderus a tharged na chyflawnwyd. Mae'r rhain yn cynnwys amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys; arosiadau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, ac arosiadau am rai gwasanaethau iechyd meddwl ac offthalmoleg.

64 Mae aelodau y Bwrdd wedi adnabod rhywfaint o welliant yn y broses o adrodd perfformiad, gan gynnwys naratif mwy cryno sy'n canolbwyntio ar bryderon allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, a rhagor o ddefnydd o offer dadansoddi megis siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol. Mae ein dadansoddiad yn parhau i ddangos bod angen canolbwyntio ar grynhoi'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i wella perfformiad ac a yw'r camau hynny yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir **(Atodiad 2, A2 2022)**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

65 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau corfforaethol ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan Ddeddf newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020);
- fframwaith (neu debyg) ar waith sy'n cefnogi gwaith llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

66 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i weithredu system rheoli ansawdd, ond nad yw wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y trefniadau gofynnol o dan y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ar waith neu'n datblygu. Hefyd, mae amseroldeb ymatebion i ddigwyddiadau a chwynion yn parhau i fod yn bryder ac mae angen egluro'r rheswm dros y gostyngiad sylweddol mewn cwynion yn ystod hanner cyntaf 2023–24**.

67 Golyga tarfu ar fusnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod 2023 nad yw'r Bwrdd wedi cael sicrwydd bod y sefydliad wedi adolygu ei drefniadau corfforaethol ar gyfer cyflawni'r gofynion o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf). Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar System Rheoli Ansawdd yn unol â'r gofynion a nodir yn y Ddeddf, a dylai fod ar waith erbyn mis Ebrill 2024. Bydd y trefniadau diwygiedig yn cynnwys dangosfwrdd ansawdd newydd a phorth dysgu i gipio a dadansoddi digwyddiadau a chwynion a rhannu'r hyn a ddysgir.

68 Mae adroddiad diogelwch cleifion rheolaidd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn adrodd yn ddigonol ar fanylion digwyddiadau a helyntion a fu bron a digwydd, gan dynnu sylw at y camau a gymerwyd i ymdrin â meysydd sy'n peri pryder, megis briwiau pwyso a ddelir wrth gael gofal iechyd. Mae adroddiadau y Bwrdd Iechyd yn nodi bod ganddo nifer uchel o ymchwiliadau i gwynion a digwyddiadau sy'n hwyr y mae angen gwneud cynnydd arnynt. Bu gostyngiad anesboniadwy sylweddol hefyd yn nifer y cwynion a gafwyd ynghylch chwe mis cyntaf 2023–24 o'u cymharu â 2022–23, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i hyn ar hyn o bryd; ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd hyn wedi ei bwysleisio i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad **(Argymhelliad 3)**.

69 Mae adroddiad rheoleiddiol a chyfreithiol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ymdrin â gwaith rheoleiddwyr gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Crwner, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith i'r

pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd cryno i'r pwyllgor bod camau ar waith i fynd i'r afael â phryderon ac i ymateb i geisiadau gan reoleiddwyr. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad o lefel uchel iawn. Mae cyfleoedd i'r adroddiad ddangos yn gliriach sut mae'n gweithredu dysg o'r digwyddiadau hyn, yn ogystal ag ymgorffori'r gwersi hynny ar draws y sefydliad. Mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu i sicrhau cywirdeb ei ffigurau a adroddir ar gyfer cwynion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **(Atodiad 2, A3 2022)**.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

70 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac argymhellion a chanfyddiadau adolygu eraill mewn modd amserol.

71 Er bod **y Pwyllgor Archwilio yn cynnal gwaith goruchwylio rheolaidd ag olrheiniwr archwilio, ac y cymerir camau i gynyddu'r graddau y mae gweithredwyr yn derbyn cyfrifoldeb am yr wybodaeth ddiweddaraf o'r olrheiniwr, mae angen sylwebaeth gliriach ar effaith camau gweithredu mewn ymateb i argymelliadau ac er mwyn cryfhau'r broses o fonitro argymhellion mewn pwyllgorau eraill**.

72 Yn ystod 2023, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld argymhellion newydd yn cael eu hychwanegu at yr olrheiniwr archwilio yn gyflymach nag y bu'n gallu cau argymhellion blaenorol. Hefyd, nodwn nad yw'r argymhellion a wneir yn ein hadroddiadau 2023 wedi eu hychwanegu at yr olrheiniwr[7]

73 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i dderbyn yr olrheiniwr archwilio ac adroddiad cryno cysylltiedig yn rheolaidd **(Argymhelliad 4)**. Er bod yr olrheiniwr archwilio bellach yn cynnwys lefel well o fanylion am resymeg y rheolwyr dros argymell bod gweithredoedd yn cael eu cau, mae'r naratif yn tueddu i ganolbwyntio ar dasgau a gwblhawyd. Mae hyn yn golygu nad yw aelodau y pwyllgorau yn cael sicrwydd digonol bod camau wedi eu cymryd i gau'r argymhellion presennol sydd wedi cyflawni'r effaith a ddymunir ac i ddatrys y materion a nodir yn yr adroddiad archwilio gwreiddiol **(Atodiad 2, A5 2022)**.

74 Ar hyn o bryd mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd yn treulio cryn dipyn o amser ar sicrhau ansawdd yr wybodaeth y mae'r gyfarwyddiaeth yn ei darparu, er mwyn diweddaru'r olrheiniwr. Mae angen i'r gweithredwyr dderbyn mwy o gyfrifoldeb am

[7] Mae hyn yn cynnwys argymhellion a wnaed yn ein Hasesiad Strwythuredig 2023 a'n hadroddiad dilynol 2023 ar Wasanaethau Dilynol i Gleifion Allanol.

y diweddariadau hyn, ac rydym yn deall y bydd angen i'r Tîm Gweithredol lofnodi cyflwyniadau i'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

75 Gwnaethom nodi hefyd fod angen cryfhau'r dull o fonitro cynnydd argymhellion gan bwyllgorau eraill. Y tu hwnt i'r Pwyllgor Archwilio, nid yw pwyllgorau yn cael adroddiadau olrhain argymhellion rheolaidd, ac nid ydynt yn cael sicrwydd arferol bob amser ar y cynnydd a wneir i fynd i'r afael ag argymhellion y rheoleiddwyr. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno goruchwyliaeth pwyllgor effeithiol er mwyn monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion a wneir gan gyrff adolygu allanol. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r dulliau presennol, megis yr adroddiad rheoleiddiol a chyfreithiol a drafodir ym **mharagraff 69**. Dylai goruchwyliaeth gynnwys yr holl reoleiddwyr ac arolygwyr perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig o reidrwydd i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Crwner, Comisiynydd y Gymraeg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **(Argymhelliad 5)**.

# Dull cynllunio corfforaethol

76 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

77 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i risgiau a'i heriau strategol sylweddol, ond mae'n ei chael hi'n anodd bodloni'r galw am wasanaethau ac nid yw ei wasanaethau'n gynaliadwy yn ariannol ar hyn o bryd. Mae angen dull cynllunio cliriach a thymor hwy ar y Bwrdd Iechyd sy'n ystyried ad-drefnu gwasanaethau yn briodol, er mwyn bodloni'r galw am ofal iechyd cyfredol ac yn y dyfodol. Mae angen canolbwyntio hefyd ar adrodd, monitro a sicrwydd o ran cyflawni'r cynllun ar lwyddiant cyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau a fwriedir.**

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

78 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- strategaeth clinigol hirdymor priodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

79 Canfuom, **er gwaethaf yr heriau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu hwynebu y llynedd, fod ei ddull cynllunio wedi helpu i nodi gweithgarwch gwella yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae angen iddo ystyried datblygu modelau a chyfluniadau gwasanaeth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses**.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd bum mlynedd i mewn i'w Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach 2018–28. Mae ei blaenoriaethau gwella yn cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau yng nghylch gwaith y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys darparu gofal yn nes at y cartref, cefnogi iechyd meddwl a llesiant, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Er bod y Bwrdd Iechyd dros hanner ffordd drwy'r broses o gyflawni ei strategaeth erbyn hyn, mewn angen targedu'r perfformiad mewn llawer o feysydd, mae diffyg ariannol sylfaenol cynyddol, ac efallai y bydd y rhagolygon tymor hwy yn gweld y galw am ofal iechyd yn cynyddu ymhellach[8].

81 Ochr yn ochr â'r Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach, mae strategaeth glinigol 2022 y Bwrdd Iechyd yn dangos dealltwriaeth dda o'r cyfleoedd a'r heriau strategol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Er bod y strategaeth glinigol yn darparu amcanion rhesymegol lefel uchel, nid yw'n nodi'n ddigonol gyfluniad modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn glinigol. O ganlyniad, er bod y strategaethau corfforaethol galluogi a'r cynlluniau ar gyfer ystadau, digidol a phobl yn canolbwyntio'n rhesymol ar fynd i'r afael â rhai heriau tymor byr allweddol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar y dyfodol i gefnogi gweithrediad modelau gofal newydd sy'n fwy cynaliadwy. Y llynedd, gwnaethom argymell bod angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynlluniau cyflawni strategaeth clinigol er mwyn helpu i ddarparu'r eglurder angenrheidiol ar gyfluniad gwasanaethau. Rydym yn deall bod camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn dal i fynd rhagddynt **(Atodiad 2, A7 2022).**

82 Mae ail-drefnu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion gofal iechyd cyfredol y boblogaeth a'i hanghenion yn y dyfodol yn debygol o ofyn am rai penderfyniadau anodd ynghylch ffurf a lleoliad gwasanaethau yn y dyfodol. O'r herwydd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu'n effeithiol â'i randdeiliaid allweddol, cleifion a'r cyhoedd **(Argymhelliad 6)**. Fel y trafodir ym **mharagraff 57**, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei amcanion llesiant yn ystod 2024–25 yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i gysoni lleoliad gwrthrychol llesiant ag amcanion sefydliadol, ac i ddatblygu strategaeth barhaus hefyd.

83 Mae Cynllun Blynyddol 2023–24 wedi rhoi rhywfaint o eglurder ar raglenni a mentrau gwella presennol, ond mae angen bod yn fwy strategol a chydbwyso dyheadau tymor byr a thymor hwy. Nid yw dull cynllunio tymor byr y Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf, yn lle cynllun tymor canolig integredig y gellir ei

[8] Dengys dadansoddiad o alw y Bwrdd Iechyd dros y degawd diwethaf lefelau cynyddol o atgyfeiriadau ac ymweliadau ag adrannau brys, ac mae'n amlwg eu bod yn uwch na'r lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig erbyn hyn.

gymeradwyo, wedi galluogi'r lefel o drawsnewid na'r atebion cynaliadwy sydd eu hangen yn ddigonol fel yr amlygir uchod.

84 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Blynyddol 2023–24, yn dilyn gwaith craffu yn ei gyfarfod blaenorol. Yn hanesyddol, mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o ran gwaith craffu ar lefel pwyllgor ar y broses o ddatblygu cynllun blynyddol. Yn ddealladwy, daeth hyn i ben pan roddodd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth y gorau i weithredu yn gynnar yn 2023. Er hynny, roedd y Bwrdd yn gallu ystyried y cynllun blynyddol yn ddigonol cyn ei gymeradwyo.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

85 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[9], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

86 Canfuom fod **newidiadau dros dro i strwythur pwyllgorau y Bwrdd yn ystod 2023 wedi lleihau ei allu i graffu ar y modd o gyflawni strategaethau a chynlluniau. Er y bydd adfer strwythur pwyllgor llawn yn gynnar yn 2024 yn cywiro hynny, mae angen gwella'r broses o fonitro'r effeithiau a fwriedir o hyd, y canlyniadau, a'r manteision busnes sy'n deillio o strategaethau a chynlluniau y Bwrdd Iechyd**.

87 Mae cynlluniau y Bwrdd Iechyd yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu lefel uchel rhesymol yn aml sy'n nodi bwriad eang ac sy'n gysylltiedig â'i gyfleoedd a'i risgiau strategol i wella. Yn gyffredinol, mae cyfyngiadau amser digonol ar gynlluniau y Bwrdd Iechyd ac maent n nodi uwch-swyddogion cyfrifol yn glir. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi canlyniadau sy'n ddigon mesuradwy yn aml a fyddai'n caniatáu i'r Bwrdd Iechyd adrodd ac asesu'r canlyniad a gyflawnwyd a'r effaith o ganlyniad i gyflawni'r amcanion a'r camau gweithredu.

88 Yn ystod 2022 a hyd ddechrau 2023, cynhaliodd y Bwrdd oruchwyliaeth dda a gwaith craffu ar y cynnydd er mwyn cyflawni cynlluniau strategol allweddol yn ei Bwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Roedd hyn yn cynnwys Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach 2018–28, y Strategaeth Glinigol, Strategaeth

[9] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

Iechyd Meddwl, Strategaeth Anabledd Dysgu, a Strategaeth Bobl yn ogystal â chraffu ar y gwaith o gyflawni cynlluniau blynyddol. Mae'r Bwrdd wedi parhau i oruchwylio'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun blynyddol, ond ers i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth roi'r gorau i weithredu ym mis Chwefror 2023, mae'r gwaith o graffu ar weithrediad strategaethau a chynlluniau eraill wedi lleihau'n sylweddol. Mae ailgyflwyno'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 yn rhoi cyfle i gryfhau gwaith craffu ar y broses o ddatblygiad a chyflawni cynlluniau, a'r llwyddiant o ran cyflawni'r canlyniadau a'r effaith a fwriedir.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

89 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

90 Canfuom, **er ei fod wedi bodloni'r ddyletswydd statudol i wario o fewn ei ddyraniad ar gyfer cyfnod 2020–23, fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu diffyg ariannol sylfaenol sylweddol**. **Mae angen clir am strategaeth ariannol cadarn sy'n gysylltiedig â modelau gwasanaeth clinigol cynaliadwy sydd o ansawdd da**.

## Amcanion ariannol

91 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022–23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020–21 a 2022–23; a
- y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023–24.

92 Canfuom, **gyda chymorth cymorth ariannol ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd i wario o fewn ei ddyraniad yn ystod cyfnod treigl tair blynedd 2020–23. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol cyffredinol yn parhau i beri risg sylweddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld na fydd yn cyflawni'r sefyllfa diwedd blwyddyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei disgwyl.**

93 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi heriau ariannol hirsefydlog. Ym mis Tachwedd 2020, yn rhan o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru i isgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i 'ymyrraeth wedi ei thargedu',[10] derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddyraniad ariannol ychwanegol gwerth £297 miliwn. Rhannwyd y dyraniad ychwanegol dros y cyfnod o dair blynedd a hanner rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2024. Gyda'r cyllid ychwanegol hwn, ochr yn ochr â dyraniadau eraill yn ystod y flwyddyn a'i

[10] Codi'r mesurau arbennig sydd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

ddarpariaeth arbedion[11], cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd i wario o fewn ei ddyraniad cyllid dros gyfnod tair blynedd 2020–23. O ran blwyddyn ariannol 2022–23, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd i reoli ei wariant o fewn ei ddyraniad o £1.993 biliwn[12], gyda chymorth ariannol ychwanegol.

94 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i baratoi cynllun ariannol tair blynedd sy'n gytbwys yn ariannol ar gyfer 2023–2026. Yn hytrach, datblygodd gynllun blynyddol ar gyfer 2023–24, gan nodi ei fod yn rhagweld diffyg ariannol o £134 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ystod 2023–24, darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol ychwanegol i bob bwrdd iechyd er mwyn helpu i leddfu'r pwysau o gostau etifeddiaeth COVID a chwyddiant, gan gynnwys costau ynni. Arweiniodd hyn at y Bwrdd Iechyd yn derbyn £101.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Daeth hyn â gofyniad amodol i gyflawni lleihad o 10% yn y diffyg yn ei gynllun blynyddol (sy'n cyfateb i weithio tuag at ddiffyg 'cyfanswm rheoli' o £20 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2024). Yn ogystal â'r £101.5 miliwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn £34 miliwn o gyllid gwella perfformiad a chyllid sy'n werth £82 miliwn ar flwyddyn olaf y dyraniad ymyrraeth wedi ei thargedu £297 miliwn. Ar y cyfan, ym mis Rhagfyr 2023, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn £217.5 miliwn ychwanegol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023–24. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adrodd ei fod yn rhagweld diffyg o £33 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae dibyniaeth sylweddol y Bwrdd Iechyd ar gyllid blynyddol ychwanegol anghylchol yn dangos yn glir raddfa'r her o ddod â'r Bwrdd Iechyd i sefyllfa sy'n gytbwys yn ariannol.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

95 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

96 Canfuom fod **dull cynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd yn sbarduno dull rheoli ariannol trafodaethol ac er ei fod yn cyflawni rhai arbedion yn ystod y flwyddyn, nid yw hyn yn mynd i'r afael â diffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn sylweddol. Mae angen clir am strategaeth ariannol i danategu'r broses**

[11] Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd arbedion o £18.4 miliwn yn 2020–21, arbedion o £19.2 miliwn yn 2021–22 ac arbedion o £31.2 miliwn yn 2022–23.

[12] Tanwariodd y Bwrdd Iechyd o gymharu â'i ddyraniad o £0.389 miliwn yn 2022–23.

**gynllunio tymor canolig i hirdymor sy'n ystyried twf yn y galw am ofal iechyd yn llawn ac yn cefnogi modelau gwasanaeth clinigol sy'n gynaliadwy yn ariannol, gan leihau'r diffyg sylfaenol hefyd ar yr un pryd**.

97 Effeithiodd absenoldeb uwch-staff cyllid yn sylweddol ar y dull cynllunio ariannol ar gyfer 2023–24 yn dilyn yr ymchwiliad i afreoleidd-dra yng nghyfrifon 2021–22[13] a'r angen i sicrhau trefniadau arweinyddiaeth interim ar gyfer y Tîm Cyllid. Arweiniodd hyn at y tîm rheoli ariannol yn paratoi cyfarwyddiadau cyfyngedig yn amlinellu'r pwysau cost disgwyliedig i'w hadolygu gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Ionawr 2023. Yn dilyn hyn, yn ei gyfarfod cyntaf gydag aelodau newydd interim y Bwrdd, dim ond amlinelliad lefel uchel o gyllideb ariannol 2023–24 a gymeradwywyd ganddo ym mis Mawrth 2023 a gafodd y Bwrdd. Yn ddealladwy, roedd hwn yn gyfnod anodd i'r tîm rheoli ariannol ac i aelodau interim y bwrdd a benodwyd yn ddiweddar. Derbyniodd y Bwrdd a chytunodd ar y cynllun ariannol terfynol yn rhan o Gynllun Blynyddol 2023–24 ym mis Gorffennaf 2023.

98 Wrth ystyried Cynllun Blynyddol llawn 2023–24, nid yw'n glir a yw mentrau ac amcanion gwella'r Bwrdd Iechyd a nodir yn y cynllun yn fforddiadwy yn ariannol. Mae hyn yn awgrymu bod angen dull mwy integredig o gynllunio ariannol. Er bod Cynllun Blynyddol 2023–24 yn darparu gwybodaeth resymol am wariant, pwysau ariannol a risgiau, mae'n amlwg bod angen strategaeth ariannol er mwyn helpu i alluogi gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol **(Argymhelliad 7)**.

99 Ym mis Mawrth 2023, nododd y Bwrdd Iechyd ofyniad i gyflawni arbedion o £38.7 miliwn (gan gynnwys targed ymestyn o £7 miliwn) yn 2023–24. Erbyn mis Mai 2023, roedd y Bwrdd Iechyd wedi diwygio'r targed hwn i lawr i £30.9 miliwn (gan gynnwys targed ymestyn o £5.7 miliwn). Roedd y Bwrdd Iechyd yn araf yn nodi cynlluniau arbed digonol ar y dechrau, ond roedd wedi gwneud cynnydd rhesymol erbyn mis Rhagfyr 2023. Ar yr adeg hon, roedd wedi nodi arbedion 'gwyrdd'[14] gwerth £25.6 miliwn y gellir eu cyflawni o'u cymharu â'r targed o £30.9 miliwn. Ar ôl datblygu'r cynlluniau arbed, araf oedd cynnydd y Bwrdd Iechyd i'w cyflawni nhw, gan gyflawni £12.8 miliwn yn unig erbyn mis Hydref 2023. Fodd bynnag, erbyn mis Rhagfyr 2023, roedd yr arbedion ariannol a gyflawnwyd wedi cynyddu i £17.5 miliwn.

100 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn goruchwylio'n briodol ac yn herio'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion, er bod angen clir i weld datblygiad cynlluniau arbedion yn gynharach. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill ar ddull y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn gynnar yn 2024.

[13] Archwilio Cymru, Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn amodol ar gyfrifon Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2021–22, 2022

[14] Mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu ei arbedion arfaethedig yn 'Goch, Oren neu Wyrdd'. Ystyrir bod modd cyflawni'r rhai a ystyrir yn wyrdd o fewn y flwyddyn ariannol.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

101 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022–23 eu cyflwyno'n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

102 Canfuom fod **dulliau corfforaethol rhesymol ar gyfer craffu ar drefniadau a materion rheoli ariannol arferol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei hun yn briodol fod y gwelliannau rheolaethau ariannol a nodwyd mewn archwiliadau blaenorol ac adroddiadau annibynnol yn cael sylw effeithiol a llawn**.

103 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau rhesymol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau statudol, ac i adrodd a herio toriadau. Fel y nodir ym **mharagraff 40**, mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo wedi eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd fodel Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Llywodraeth Cymru gyda rhywfaint o fân waith addasu i'w wneud yn benodol i'r Bwrdd Iechyd. Mae nifer yr hepgoriadau tendr sengl[15] wedi dechrau gostwng o ganlyniad i oruchwyliaeth a rheolaeth gryfach gan y rheolwyr (**Atodiad 2, A10 2022**). Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ac yn craffu ar golledion a thaliadau arbennig, rheolau sefydlog a dorrir, gweithgareddau gwrth-dwyll, a'r broses o reoli gordaliadau fel mater o drefn.

104 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r materion a nodwyd yn ein harchwiliadau o gyfrifon 2021–22 a 2022–23, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad EY. Fodd bynnag, bu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion yn arafach na'r bwriad. Paratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu rheolaeth ariannol, a oedd yn ymdrin â rhai o'r argymhellion EY, ond nid pob un ohonynt. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2023, ond nid yw'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio na'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth mwyach, ac ni chwblhawyd y camau gweithredu yn llawn ym mis Mai 2023 (**Argymhelliad 8**).

[15] Defnyddir hepgoriad tendr sengl i ganiatáu caffaeliad heb broses tendro llawn a chystadleuaeth.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

105 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu'n briodol ar y perfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

106 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau adroddiadau sicrwydd ar y graddau y mae'r camau y mae'n eu cymryd i gefnogi gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol yn gwneud gwahaniaeth**.

107 Fel y nodir yn ein hasesiad strwythuredig 2022, cyflwynir adroddiadau ariannol rheolaidd i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Bwrdd. Mae adroddiadau'n amserol ac yn dryloyw ar y cyfan, gan ddarparu dadansoddiad da o feysydd gwariant, gorwariant a thueddiadau gwariant ariannol. Mae'r adroddiadau'n nodi'r heriau ariannol tymor byr ac yn nodi lle mae pryderon ariannol penodol. Er gwaethaf yr heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wrth gyflawni ei gynlluniau arbedion, mae'r adroddiad ar wahân ar arbedion ariannol yn darparu dadansoddiad da o'r cynnydd gan nodi a chyflwyno cynlluniau arbed, cyfran y cynlluniau sy'n rhyddhau arian parod, ac i ba raddau y mae cynlluniau'n cynhyrchu arbedion cylchol.

108 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r heriau ariannol a nodir mewn adroddiadau sicrwydd ariannol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r naratif ar y camau lliniaru y tu hwnt i'r angen i nodi arbedion ychwanegol neu gryfhau atebolrwydd. Nid yw'r adroddiadau'n galluogi'r darllenydd i ddeall yn llawn a yw'r camau a gymerwyd i wella cyllid wedi bod yn llwyddiannus, nac i ba raddau y mae dull y Bwrdd Iechyd o drawsnewid gwasanaethau yn helpu i roi'r sefydliad ar sail ariannol fwy cynaliadwy, neu'n debygol o wneud hynny. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael trafodaethau agored a didwyll am y perfformiad ariannol ac maent yn ymwybodol iawn nad yw dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio ariannol yn gynaliadwy.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 3 isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Cyfarfod y Bwrdd: 28 Medi 2023; 30 Tachwedd 2023; a 25 Ionawr 2024<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad: 27 Hydref 2023<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth: 2 Tachwedd 2023; a 22 Ionawr 2024<br>• Y Pwyllgor Archwilio: 16 Tachwedd 2023; a 12 Ionawr 2024 |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol;<br>• Y Cadeirydd;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth;<br>• Y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd;<br>• Y Pennaeth Rheoli Risg;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Interim. |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion blaenorol

**Mae Arddangosiad 4 isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol**

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| Asesiad Strwythuredig 2021<br>**Adroddiadau ariannol**<br>A1 Sicrhau pwyslais gwell ar effeithlonrwydd ariannol gwasanaethau mewn adroddiadau cyllid. Gellid cyflawni hyn drwy adroddiadau cyfnodol neu thematig ar effeithlonrwydd ariannol sy'n mynd at wraidd y mater, drwy adrodd ar gynnydd mewn gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, neu'n rhan o adroddiadau ariannol arferol.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: 28 Chwefror 2022. | Byddwn yn gwneud sylwadau ar y cynnydd o ran yr argymhelliad hwn yn rhan o'n hadolygiad arbedion cost y byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Adolygiad a lle mae angen, cryfhau camau lliniaru risgiau**<br>A1 Er y newidiadau diweddar i drefniadau risg strategol a chorfforaethol y Bwrdd Iechyd, nid yw'r sgoriau risg yn gostwng mewn rhai meysydd allweddol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r camau lliniaru ar y gofrestr risg gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith a fwriedir.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: 28 Medi 2023. | **Ar y gweill**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu a diwygio ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2023. Mae'r offer sicrwydd hyn yn parhau i fod ar gam gweithredu cynnar. O'r herwydd, mae'n rhy gynnar i benderfynu a yw'r newidiadau'n helpu i sbarduno gwelliannau yn y rheolaeth a'r sicrwydd i gefnogi gwaith craffu ar risgiau gweithredol a strategol. Mae angen rhagor o bwyslais o hyd ar yr effaith y mae camau gweithredu i fynd i'r afael â risgiau yn ei chael. |
| **Adolygu gwaith adrodd ar sicrwydd rheoli perfformiad**<br>A2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fireinio'r modd yr adroddir ar berfformiad i'r bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau ynghylch ansawdd yr adroddiad ar berfformiad a'r graddau y bydd y camau gweithredu a noder yn arwain at y gwelliannau a fwriedir. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei broses o adrodd ar sicrwydd perfformiad drwy ganolbwyntio'n fwy ar effaith y gweithredoedd gwella perfformiad.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: 31 Gorffennaf 2023 gydag adolygiad parhaus. | **Ar y gweill**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei Adroddiad Perfformiad Integredig a gymeradwyodd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023. Mae aelodau y Bwrdd wedi adnabod bod yr adroddiadau newydd yn dangos cynnydd gyda naratif mwy cryno sy'n canolbwyntio ar bryderon allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â mwy o ddefnydd a hyfforddiant ar gyfer offer dadansoddi megis siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod lle o hyd i gynyddu naratif yr adroddiad ar effaith camau lliniaru. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **Sicrhau cywirdeb wrth adrodd ffigyrau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**<br>A3 Bu anghysondeb rhwng y ffigyrau cwynion a adroddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Bwrdd Iechyd a ffigyrau’r Bwrdd Iechyd ei hun mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Er i’r Bwrdd Iechyd gywiro hyn yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2021–22, dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw anghysondebau o’r fath yn digwydd eto. Dylai’r Bwrdd Iechyd ddilysu a gwirio nifer y cwynion ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Cwblhawyd ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn (Awst 2023) | **Cwblhawyd**. Dechreuodd y Bwrdd Iechyd gyfarfodydd misol gyda swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn dilysu data i sicrhau adroddiadau blynyddol cywir. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Adolygu polisïau y Bwrdd Iechyd**<br>A4 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol o bolisïau sy'n cael eu hadnewyddu'n hwyr, sy'n rhoi'r sefydliad mewn perygl oherwydd risgiau sefydliadol a gweinyddol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru polisïau y Bwrdd Iechyd, gan roi blaenoriaeth i bolisïau pwysig iawn yn gyntaf, gan gynnwys y polisi ar bolisïau.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Medi 2023 | **Ar y gweill.** Mae'r grwpiau gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y polisi diwygiedig ar bolisïau ynghyd â chynllun arfaethedig i fynd i'r afael ag ôl-groniad polisïau y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y gallai gymryd 18 mis i gwblhau hyn. |
| **Adolygu'r olrheiniwr argymhellion archwilio**<br>A5 Manylion cyfyngedig y mae'r olrheiniwr a'r adroddiad argymhellion archwilio yn eu darparu yn eu fformat presennol, yn enwedig o amgylch y camau yr ystyrir eu bod wedi eu cwblhau. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio i adolygu fformat yr olrheiniwr a'r adroddiad archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o wybodaeth i roi sicrwydd.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Medi 2023 | **Ar y gweill.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio fformat ei olrheiniwr archwilio ers y llynedd. Mae lefel well o fanylion mewn cysylltiad â chamau gweithredu yr argymhellir eu bod yn cael eu cau. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth yn canolbwyntio'n fwy ar y camau a gymerwyd yn hytrach nag adrodd a aed i'r afael â'r argymhelliad gwreiddiol ai peidio. Gall hyn arwain at sicrwydd ffug bod yr argymhelliad wedi ei gwblhau weithiau. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Rhoi'r model gweithredu newydd ar waith**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith ar frys, yn enwedig o ran recriwtio deiliaid swyddi o bwys a lleihau'r ddibyniaeth ar benodiadau interim.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Mae angen adolygiad parhaus. | **Ar y gweill**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio'n barhaol ar gyfer sawl uwch-swydd, sy'n lleihau ei ddibyniaeth ar swyddogaethau interim. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu myfyrio ar roi'r model gweithredu ar waith yn ystod 2024. |
| **Datblygu cynllun cyflawni clinigol ategol**<br>A7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strategaeth glinigol ar gyfer ei wasanaethau, fodd bynnag, nid oes manylion digonol am sut y bydd yn cael ei rhoi ar waith. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun/cynlluniau cyflawni clinigol ategol a strwythurau cyflawni er mwyn siapio a rhoi modelau gwasanaeth cynaliadwy ar waith. Dylai cynlluniau clinigol lywio'r gweithlu, yr ystad, yr adnoddau ariannol, a'r broses o gynllunio gwasanaethau digidol.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Chwarter 4 2023–24 | **Ar y gweill**. Bydd y Bwrdd Iechyd yn pwyso a mesur ymrwymiadau strategol yn rhan o'r dull cynllunio diwygiedig. O ystyried pwysau gwasanaeth a pherfformiad cysylltiedig, potensial ar gyfer twf mewn galw yn y tymor canolig i'r hirdymor, a'r diffyg ariannol sylfaenol, mae angen clir o hyd i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynlluniau cyflawni strategaeth clinigol sy'n gynaliadwy yn ariannol sy'n nodi cyfluniadau newydd ar gyfer gwasanaethau. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **Adrodd ar effaith mentrau gofal iechyd sy’n seiliedig ar werth**<br>A8 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom ar y modd y mae’r Bwrdd Iechyd yn rhoi gofal iechyd sy’n seiliedig ar werth ar waith yn weithredol yn ei wasanaethau, gan fanteisio gymaint â phosibl ar werth ac effeithlonrwydd. Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau ar ei raglen gofal iechyd sy’n seiliedig ar werth yn canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Rhagfyr 2023 gydag adolygiad parhaus | **Ar y gweill.** Mae’r Bwrdd Iechyd yn nodi y bydd ei ddull gweithredu yn cael ei ystyried yn rhan o’i Fframwaith Cynllunio. Mae prosiectau penodol gan gynnwys ar Lymffoedema a Llid yr Isgroen a Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Glaf sy’n cael eu harwain gan cymalffurfiad dilynol ar y gweill. Mae angen o hyd i asesu ac adrodd ar effaith a chanlyniadau y mentrau. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Rhoi dulliau adfer ariannol ar waith ar frys i gryfhau'r sefyllfa ariannol**<br>A9 Ym mis Ionawr 2023, nid yw'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn gyda'i gynllun arbedion presennol, ac mae ei gynnydd â'r cynllun arbedion ar gyfer 2023–24 yn araf. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• paratoi rhaglenni adfer ariannol priodol ar frys ar gyfer gweddill y flwyddyn hon a'r flwyddyn ariannol nesaf;<br>• adolygu dewisiadau ar gyfer dadfuddsoddi yn yr ystad a'r gwasanaeth (hy lle nad yw gwasanaethau'n dangos effaith a chanlyniadau cleifion digonol);<br>• cyflwyno systemau adrodd a goruchwylio cryfach ar y sefyllfa ariannol tymor canolig, y strategaeth ariannol a'r dulliau adfer;<br>• targedu buddsoddiadau digidol mewn meysydd lle mae buddion busnes clir, hy lle gellir defnyddio digidol i ryddhau effeithlonrwydd gwasanaeth a/neu enillion ansawdd mewn mannau eraill.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Cwblhawyd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Awst 2023) | **Ar y gweill.** O ddechreuad araf, gwnaeth y Bwrdd Iechyd wella'r broses o nodi a chyflawni cynlluniau arbed ar gyfer 2023–24. Er y rhagwelir y byddant yn cyflawni'r targed is diwygiedig o £25.2 miliwn, nid yw'r rhain yn cyflawni'r targed arbedion gwreiddiol a nodwyd ar ddechrau y flwyddyn.<br>Mae angen pwyslais cryfach o hyd ar strategaeth ariannol sy'n cysylltu â dewisiadau ar gyfer ystadau a dadfuddsoddi gwasanaethau mewn achosion lle na ddangosir gwerth ac effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella tryloywder ei adroddiadau ariannol, ond mae angen pwyslais cryfach ar y sefyllfa ariannol tymor canolig sy'n gysylltiedig â strategaeth ariannol a dulliau adfer.<br>Mae cyfalaf cyfyngedig yn effeithio ar fuddsoddiad mewn digidol ac mae angen parhau i dargedu buddsoddiadau digidol lle byddai hyn yn rhyddhau enillion ac yn trawsnewid effeithlonrwydd gwasanaeth. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Cyflwyno cynllunio a rheolaeth ariannol cryfach i leihau'r ddibyniaeth ar hepgoriadau tendr sengl**<br>A10 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o ddefnydd sylweddol a chynyddol o hepgoriadau tendr sengl. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o gynllunio ar gyfer caffael a chryfhau'r rheolaethau ariannol ar gyfer hepgoriadau tendr sengl.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Cwblhawyd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Awst 2023) | **Cwblhawyd.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau rheolaethau ar gyfer hepgoriadau tendr sengl, sydd wedi lleihau graddau cyffredinol ei ddefnydd a'r gwariant cysylltiedig yr ymrwymwyd iddo drwy hepgoriadau. |
| **Sicrhau effeithiolrwydd y gwasanaethau llesiant staff**<br>A11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi llesiant y staff. Fodd bynnag, nid yw'n cynnal digon o werthusiadau ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith ei wasanaethau llesiant staff er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.<br><br>Y dyddiad cwblhau arfaethedig yn ymateb gwreiddiol y rheolwyr: Chwarter 2023–24 | Byddwn yn adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r argymhelliad hwn yn ddiweddarach yn 2024 yn rhan o'n hadolygiad nesaf o'r asesiad strwythuredig. |

| Argymhelliad a wnaed yn 2022 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Gwella goruchwyliaeth ariannol a pherfformiad ar gyfer digidol ac ystadau**<br>A12 Mae angen rhoi trefniadau ar waith i ddeall effaith strategaethau digidol ac ystadau, yn ogystal â dichonoldeb ariannol y strategaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• adolygu unrhyw fylchau ariannu yn y strategaethau digidol ac ystadau i benderfynu a ydynt yn ymarferol yn ariannol. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor perthnasol ar ganfyddiadau'r adolygiad dichonoldeb ariannol a sut y bydd unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli.<br>• cyflwyno adroddiadau pwyllgor cyfnodol sy'n canolbwyntio yr effaith y mae ei strategaethau digidol ac ystadau yn ei chael ar y sefydliad yn ogystal â'r camau sydd wedi eu cwblhau. | **Ar y gweill.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhelliad drwy weithredu'r Fframwaith Cynllunio newydd a'r Fframwaith Perfformiad Integredig. |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 5: Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Ar hyn o bryd, mae dryswch ynghylch sawl diwrnod cyn y cyfarfodydd y dylai papurau y Bwrdd a phapurau pwyllgorau fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd gytuno ar ddyddiad targed cyson ar gyfer cyhoeddi agendâu o flaen cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, a mynegi hyn. | Cytunwyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau mai'r dyddiad targed safonol ar gyfer papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau fydd saith niwrnod o rybudd cyn y cyfarfodydd.<br><br>Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn cyfleu'r amserlen hon i holl Aelodau y Bwrdd a'r Tîm | Diwedd mis Ebrill 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | Gweithredol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch o ran amserlenni. | | |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgor mewn modd mwy amserol yn rhan o'i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd. | Cytunwyd.<br>Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'r broses bresennol a'r Weithdrefn Gweithredu Sefydlog ar gyfer cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor ac yn cytuno ar hyn gyda'r Bwrdd. | 31 Mai 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A3 | Bu gostyngiad anesboniadwy sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd ar gyfer chwe mis cyntaf 2023–24 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio ar frys i ddarganfod y rheswm er | Cytunwyd.<br>Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gyda'r Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg yn arwain gwaith i wirio ansawdd y data. Mae'r wybodaeth | 30 Mehefin 2024 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | mwyn sicrhau nad yw cwynion yn cael eu colli na'u hadrodd yn anghywir. | honno'n dal i gael ei derbyn ac nid oes unrhyw reswm penodol sydd wedi ei gadarnhau dros y gostyngiad hwn.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu System Rheoli Ansawdd a fydd yn galluogi dysg o gwynion/sylwadau i gael ei deall a'i hadlewyrchu'n llawn ym mhroses cynllunio ansawdd y Bwrdd Iechyd. Bydd cyfarfod anffurfiol o'r Tîm Gweithredol yn ystyried drafft o'r System Rheoli Ansawdd erbyn diwedd mis Mai 2024. | | |
| A4 | Nododd ein gwaith nad ychwanegwyd holl argymhellion Archwilio Cymru a wnaed yn 2023 at yr olrheiniwr archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod proses ar gyfer | Cytunwyd.<br>Cytunwyd ar broses gyda'r Tîm Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys cael argymhellion Archwilio yng | 31 Mai 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | ychwanegu'r holl argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru at yr olrheiniwr archwilio mewn modd amserol. | Nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol (bob deufis) cyn i'r risgiau gael eu derbyn i'w cau'n ffurfiol yn y Pwyllgor Archwilio. Bydd y broses hon yn caniatáu i'r Tîm Gweithredol wirio bod argymhellion Archwilio Cymru yn cael eu hychwanegu at yr olrheinwyr archwilio mewn modd amserol cyn i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei derbyn yn y Pwyllgor Archwilio i gael sicrwydd. Mae hyn yn caniatáu i gydweithwyr Archwilio Cymru (sy'n mynd i'r Pwyllgor Archwilio) wirio cydymffurfiaeth â'r broses hon.<br><br>Er bod y broses hon wedi ei chytuno arni ac wedi dechrau cylch arall, mae angen iddo fod wedi digwydd cyn y gellir dangos bod yr argymhelliad hwn yn effeithiol ac wedi ei gwblhau. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A5 | Ar hyn o bryd, nid oes digon o oruchwyliaeth pwyllgor i fonitro'r cynnydd a wneir o'i gymharu ag argymhellion cyrff nad ydynt yn rhai archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno goruchwyliaeth pwyllgor effeithiol ar gyfer monitro'r cynnydd a wneir o'i gymharu ag argymhellion rheoleiddwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Crwner, Comisiynydd y Gymraeg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Cytunwyd.<br>Mae adolygiad diweddar o gylch busnes cyfan Pwyllgor y Bwrdd (a gafodd y Bwrdd ym mis Ionawr 2024) wedi gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer argymhellion a dderbynnir gan gyrff nad ydynt yn rhai archwilio. Mae hyn yn cynnwys Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a Phwyllgor Pobl a Diwylliant.<br><br>Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi proses a system ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff eraill yn cael eu cydlynu a bod goruchwyliaeth briodol ar lefel y Pwyllgor, ac ar lefel y Bwrdd pan fo hynny'n briodol. | 31 Gorffennaf 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu System Rheoli Ansawdd a fydd yn galluogi dysg o adroddiadau rheoleiddio i gael ei deall a'i hadlewyrchu'n llawn ym mhroses cynllunio ansawdd y Bwrdd Iechyd. Bydd cyfarfod anffurfiol o'r Tîm Gweithredol yn ystyried drafft o'r System Rheoli Ansawdd erbyn diwedd mis Mai 2024. | | |
| A6 | Mae angen gwneud mwy i ad-drefnu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion gofal iechyd y boblogaeth gyfredol ac yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy. Er mwyn cyd-fynd â'i strategaeth glinigol, dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â chynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol | Cytunwyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd yr argymhelliad hwn. Yn rhan o'r camau blaenoriaeth ar gyfer 2024–25, fel y nodir yn y Cynllun Tair Blynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynllunio camau gweithredu sylweddol | Diwedd Chwarter 1, 2024–25 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu gyda chymorth gan |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | i'w helpu i lunio modelau gwasanaeth cynaliadwy sydd wedi eu cynllunio i fodloni'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol. | sydd, gyda'i gilydd, yn datblygu'r argymhelliad hwn.<br><br>Cymerir y camau a ganlyn:<br><br>Yn ystod 2024–25, bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu strategaeth Bwrdd Iechyd newydd a chynllun Gwasanaethau Clinigol. Er mwyn cefnogi hyn, mae blaenoriaethau eisoes wedi eu nodi i sicrhau effaith mwyaf posibl y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cael ei gynllunio i gefnogi hyn. Mae'r meysydd blaenoriaeth penodol hyn yn cynnwys gwaith cyffredinol i wella dull y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu â dinasyddion, bod yn Bartner Da, ymgysylltu â'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol i | | Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Boblogaeth a'r Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | ymgorffori dysg gan sefydliadau eraill yn GIG Cymru, ac ymgysylltu â chlinigwyr sydd yn y Bwrdd Iechyd a thu allan iddo. | | |
| A7 | Mae'n anodd gweld i ba raddau yr oedd mentrau ac amcanion gwella y Bwrdd Iechyd a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2023–24 yn fforddiadwy yn ariannol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ariannol, a chefnogir gan gynllun ariannol tymor canolig gyda'r nod o gefnogi modelau gwasanaeth cynaliadwy o ansawdd da, ac o leihau diffyg a diffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd. | Cytunwyd.<br>Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun ariannol ym mis Mai 2023 a chymeradwywyd y Cynllun Blynyddol ddiwedd mis Mehefin 2023 yn dilyn cytundeb gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Datblygodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau diwygiedig yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad datganedig o gydbwyso gwelliannau o ran ansawdd a pherfformiad o fewn amlen ariannol fforddiadwy. Y pwyslais ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023–24 ac wrth | Diwedd mis Gorffennaf 2024 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | symud i 2024–25 a thu hwnt fu cymeradwyo dull gwerth a chynaliadwyedd o gyflawni gwelliannau i staff, cleifion ac ymwelwyr a fydd hefyd yn arwain at sefyllfa ariannol gynaliadwy ar gyfer gofal iechyd yn y dyfodol. | | |
| A8 | Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn cael sicrwydd ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth gyflawn o faterion a nodir yn archwiliad cyfrifon Archwilio Cymru 2021–22 a 2022–23, a bu'r adolygiad EY dilynol yn arafach na'r bwriad. | Cytunwyd.<br>Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu trefnu yn rhan o Raglen waith y Pwyllgor Archwilio. | Diwedd mis Awst 2024 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.